KODWO AGGREY

Dod â'r du a'r gwyn yn nes at ei gilydd

(penderfyniad / ymddiriedaeth)

Ganed Kodwo Aggrey yn Ghana, dros gan mlynedd yn ôl. Cafodd ei addysg gynnar yn un o ysgolion y Methodistiaid Wesleaidd a chafodd ei fedyddio a'i enwi yn James. Pan oedd yn 15 oed dechreuodd ddysgu yn un o'r ysgolion lleol ac yn gynnar iawn pan oedd yn ei ddau ddegau daeth yn brifathro. Ond byr fu ei gyfnod yn Affrica; yn fuan iawn ar ôl derbyn y swydd o brifathrawiaeth hwyliodd i America. Dechreuodd ddysgu yn un o golegau'r wlad a daeth yn weinidog ar ddwy o eglwysi lleol. Roed ei braidd yn bobl dywyll eu croen ac yn dlawd iawn. Byddai James yn eu dysgu i drin y tir a thyfu cnydau. Credai fod gwaith yr eglwys yn mynd ymhellach o lawer nag addoli o Sul i Sul.

Daeth yn bregethwr huawdl. Byddai pobl yn tyrru o bob parth i wrando arno. Roedd ganddo stôr o straeon, damhegion a jôcs. Yn ôl yn ei wlad enedigol, ym 1920, penderfynwyd galw gweithgor i archwilio i gyflwr addysg yng nghyfandir Affrica. Ar ôl y cyfarfyddiad cyntaf meddai'r cadeirydd, "Gan ein bod ni i gyd yn bobl wyn gwell fyddai i ni gael un tywyll ei groen yn aelod o'r gweithgor." Soniodd dau neu dri o aelodau'r gweithgar am gyfraniad Dr Aggrey pan oedd yn byw yn Ghana ac meddai un ohonyn nhw, "Rydw i wedi clywed am ei waith yn ystod y blynyddoedd diwethaf yma yng Ngogledd Carolina. Mae'n amlwg ei fod yn ddyn sydd o flaen ei oes ac mae ganddo syniadau gwahanol. Beth am i ni, felly, roi gwahoddiad i Dr Aggery i ymuno â'r gweithgor?" gofynnodd y cadeirydd. Roedd pawb yn unfryd.

Pan glywodd Dr Aggrey am y penderfyniad i'w wahodd i fod yn aelod o'r gweithgor ei unig ymateb oedd, "Maen nhw wedi fy newis dim ond i roi ychydig o liw i'r trafodaethau." Dr Aggrey fyddai'r unig ddyn tywyll ei groen ar y gweithgor. Dychwelodd i'w wlad ei hun. Cafodd groeso twymgalon gan y brodorion.

Yn y cyfarfod cyntaf, fel aelod o'r gweithgor, cythruddodd ei gyd-aelodau. Dechreuodd sôn am freuddwyd y dyn tywyll ei groen yn Affrica. "Ein nod," meddai, "ydi cael llywodraethu yn ein gwlad ein hunain. Yn y gorffennol rydym wedi cael ein gormesu gan y dyn gwyn. Y dyn gwyn sydd yn rheoli. Bellach mae'n rhaid i'r dyn gwyn ddysgu rhannu cyfrifoldebau efo ni'r bobl dywyll eu croen." Torrodd y cadeirydd ar ei draws, "Mae'n rhaid i mi roi taw arnoch chi. Nid

dod yma i ddadlau achos y du a'r gwyn ydi'r nod ond pwrpas y gweithgor hwn ydi trafod dyfodol addysg ein gwlad..."

Cyn iddo orffen ei frawddeg roedd Dr Aggrey ar ei draed eilwaith. "Cyn y medrwn ni drafod dyfodol addysg ein gwlad mae'n rhaid i chi sylweddoli fod gan y dyn tywyll ei groen ei hawliau hefyd ac mae gan y plant tywyll eu croen eu hawliau o fewn y system addysg."

Erbyn hyn roedd aelodau eraill y gweithgor yn curo'r byrddau'n ffyrnig. Gwaeddodd un ohonyn nhw'n groch "Dydyn ni ddim yn mynd i ildio i ofynion y dynion duon." Bu'n rhaid dirwyn y drafodaeth i ben y diwrnod hwnnw. O hynny ymlaen roedd Dr Aggrey ar flaen y gad dros hawliau i ddynion, merched a phlant tywyll eu croen. Ac er ei fod yn gweithio'n galed dros ei bobl roedd rhai ohonyn nhw'n credu nad oedd yn gwneud digon. Cafodd ei feirniadu'n hallt gan y bobl dywyll a hefyd gan y bobl wyn. Ar y naill law doedd ef ddim yn ddigon gweithgar ac fe gafodd ei enwi'n bwped i weddill aelodau'r gweithgor. Ar y llaw arall fe'i galwyd yn hiliol ac yn benboethyn.

Ceisiodd argyhoeddi pobl ei wlad nad oedd un hil o bobl yn well na phobl eraill. Roedd gan bob cenedl ei chryfderau a'i gwendidau. Ym 1927 cafodd ei benodi'n ddirprwy brifathro ar ysgol newydd sbon yn ei wlad ei hun. Ond yn haf y flwyddyn honno disgynnodd yn farw ac ni chafodd y cyfle i ymgymryd â'i swydd. Collodd Affrica ddyn oedd yn barod i frwydro'n galed dros ei bobl a hynny heb arlliw o atgasedd na chreulondeb. Credai mai'r ffordd o ennill ei gondemnwyr oedd trwy berswâd a thrafodaeth gan wneud y cwbl yn enw cariad.

Adnod: "Amser i dewi ac amser i ddywedyd."
Pregethwr 3:7

Gweddi: Gwna fi, O Dduw, yn berson o argyhoeddiad dwfn. Amen.

Trafod:

- Beth fyddech chi'n hoffi ei weld yn digwydd ym myd addysg yng Nghymru'r dyddiau hyn?
- Pa ffyrdd sydd yna o ddod a'r Cymry â'r Saeson yn nes at ei gilydd yng Nghymru heddiw?